***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 79 (Cy. 28)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Ionawr 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *28 Ionawr 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Chwefror 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983(**1**) ac adrannau 22(1)(a), 22(2)(a), (b) ac (c) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**), a phwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**4**):

(**1**) 1983 p. 40; diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40), Atodlen 12, paragraff 91; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13), Atodlen 8, paragraff 19; Deddf Addysg 1994 (p. 30), Atodlen 2, paragraff 7; Deddf Addysg 1996 (p. 56), Atodlen 37, paragraff 57; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 11; Deddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 21, paragraff 5 ac Atodlen 22; Deddf Addysg 2005 (p. 18), Atodlen 14, paragraff 9; O.S. 2010/1080, Atodlen 1, paragraff 12; O.S. 2010/1158, Atodlen 2, paragraff 1; Deddf Addysg 2011 (p. 21), Atodlen 5, paragraff 5 ac Atodlen 16, paragraff 5; a Deddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20), Atodlen 14, paragraff 33. Diwygiwyd adran 2 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), adran 44 ac Atodlen 4.

(**2**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(2)(a) i (c) gan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 86(3)(a). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 2006/1458 gydag effaith o 8 Mehefin 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 2 o'r Ddeddf honno i'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(b) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Darparodd adran 44 o'r Ddeddf honno hefyd fod y swyddogaethau yn adran 22(2)(a) ac (c) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 2004 i fod i gael eu harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**4**) 2015 dccc 1. *Gweler* adran 57(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" a "rheoliadau".

# RHAN 1

## Enwi, cychwyn a chymhwyso

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Chwefror 2022.

### Cymhwyso

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddarparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2022, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

# RHAN 2

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007

## PENNOD 1

## Cyflwyniad

**3.** Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**5**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

## PENNOD 2

## Dinasyddion Affganistan

### Diwygiad i'r Atodlen

**4.** Yn yr Atodlen ym mharagraff 1, yn y diffiniad o "person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir"—

(a) hepgorer y "neu" terfynol ar ddiwedd paragraff (c);

(b) ar ôl paragraff (ch) mewnosoder—

"(d) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BA2 o'r rheolau mewnfudo, caniatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BS2 o'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BJ2 neu 276BO2 o'r rheolau mewnfudo;

(dd) caniatâd i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid;

(e) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan; neu

(**5**) O.S. 2007/2310 (Cy. 181), a ddiwygiwyd gan O.S. 2008/1259 (Cy. 126); O.S. 2010/1142 (Cy. 101); O.S. 2011/1043; O.S. 2011/1978 (Cy. 218); O.S. 2013/1792 (Cy. 179); O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/9 (Cy. 4); O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/813 (Cy. 192) ac O.S. 2021/1365 (Cy. 360).

(f) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo fel priod, partner sifil neu blentyn dibynnol person sy'n dod o dan baragraff (e) neu blentyn dibynnol i briod neu bartner sifil o'r fath;".

PENNOD 3

Tiriogaethau Dibynnol y Goron

**Diwygiad i reoliad 2 (dehongli)**

**5.** Hepgorer rheoliad 2(8).

# RHAN 3

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014

PENNOD 1

Cyflwyniad

**6.** Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014(**6**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

PENNOD 2

Cymhwystra ar gyfer dinasyddion penodol o Affganistan

**Diwygiad i reoliad 3 (dehongli)**

**7.** Yn rheoliad 3, yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" ("*person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen*") yw person—

(a) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BA2 o'r rheolau mewnfudo, caniatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BS2 o'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BJ2 neu 276BO2 o'r rheolau mewnfudo;

(b) y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid;

(c) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan; neu

(d) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo fel priod, partner sifil neu blentyn dibynnol person sy'n dod o dan baragraff (c) neu blentyn dibynnol i briod neu bartner sifil o'r fath;".

(**6**) O.S. 2014/3037 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/211 (Cy. 84); O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4) ac O.S. 2021/1294 (Cy. 328).

**Diwygiad i reoliad 6 (myfyrwyr cymwys)**

**8.** Yn rheoliad 6, ar ôl paragraff (10E) mewnosoder—

"(10F) Pan fo—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person ("A"), yn rhinwedd y ffaith ei fod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan, yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer un o flynyddoedd cynharach y cwrs cyfredol neu mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig yn yr Athrofa y trosglwyddwyd statws A fel myfyriwr cymwys ohono i'r cwrs cyfredol; a

(b) y cyfnod y caniateir i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan aros yn y Deyrnas Unedig i fod i ddod i ben cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi ac nad oes, ar y diwrnod cyn bod y flwyddyn academaidd honno'n dechrau, unrhyw ganiatâd pellach i aros wedi ei roi ac nad oes unrhyw apêl yn yr arfaeth,

mae statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu ar y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi."

**Diwygiad i Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys)**

**9.** Yn Atodlen 1, ym mharagraff 4ZA(4)(b)—

(a) yn is-baragraff (iii), hepgorer y "neu" terfynol ac ar ôl is-baragraff (iv) mewnosoder "neu";

(b) ar ôl is-baragraff (iv) mewnosoder—

"(v) person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;".

# RHAN 4

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**10.** Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(**7**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

### PENNOD 2

### Dinasyddion Affganistan

**Diwygiad i'r Atodlen**

**11.** Ym mharagraff 1 o'r Atodlen, yn y diffiniad o "person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir"—

(a) hepgorer y "neu" terfynol ar ddiwedd paragraff (c);

(b) ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

(**7**) O.S. 2015/1484 (Cy. 163), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/276 (Cy. 100); O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4), O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2021/1365 (Cy. 360).

"(e) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BA2 o'r rheolau mewnfudo, caniatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BS2 o'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BJ2 neu 276BO2 o'r rheolau mewnfudo;

(f) caniatâd i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid;

(g) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan; neu

(h) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo fel priod, partner sifil neu blentyn dibynnol person sy'n dod o dan baragraff (g) neu blentyn dibynnol i briod neu bartner sifil o'r fath;".

PENNOD 3

Tiriogaethau Dibynnol y Goron

**Diwygiad i'r Atodlen**

**12.** Yn yr Atodlen, ym mharagraff 1(6)—

(a) yn lle "Yr Alban," rhodder "Yr Alban neu";

(b) hepgorer "neu yn yr Ynysoedd".

# RHAN 5

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

PENNOD 1

Cyflwyniad

**13.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**8**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

PENNOD 2

Diwygiadau sy'n ymwneud â chymorth ariannol

**Diwygiadau i reoliad 16 (grant newydd at ffioedd)**

**14.** Yn rheoliad 16—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£4,395" rhodder "£4,295";

(b) ym mharagraff (3)(b), yn lle "£4,605" rhodder "£4,705";

(c) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£2,270" rhodder "£2,220";

(d) ym mharagraff (4)(b), yn lle "£2,230" rhodder "£2,280".

(**8**) O.S. 2017/47 (Cy. 21), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/191 (Cy. 42); O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1094; O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/142 (Cy. 25); O.S. 2020/153 (Cy. 27); O.S. 2020/708 (Cy. 159); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4); O.S. 2021/73 (Cy. 19); O.S. 2021/481 (Cy. 148); O.S. 2021/813 (Cy. 192) and O.S. 2021/1365 (Cy. 360).

**Diwygiadau i reoliad 19 (benthyciad newydd at ffioedd mewn perthynas â chyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012)**

**15.** Yn rheoliad 19—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£4,605" rhodder "£4,705";

(b) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£2,230" rhodder "£2,280".

**Diwygiad i reoliad 24 (grantiau at gostau byw myfyrwyr anabl)**

**16.** Yn rheoliad 24(3), yn lle "£31,831" rhodder "£32,546".

**Diwygiad i reoliad 26 (grantiau ar gyfer dibynyddion – grant ar gyfer dibynyddion mewn oed)**

**17.** Yn rheoliad 26(3), yn lle "£3,190", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "£3,262".

**Diwygiadau i reoliad 27 (grantiau ar gyfer dibynyddion – grant gofal plant)**

**18.** Yn rheoliad 27—

(a) ym mharagraff (7)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "£179.62" rhodder "£184";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "£307.95" rhodder "£315";

(b) ym mharagraff (9)(a), yn lle "£138.81" rhodder "£141".

**Diwygiad i reoliad 28 (grantiau ar gyfer dibynyddion – lwfans dysgu ar gyfer rhieni)**

**19.** Yn rheoliad 28(2), yn lle "£1,821" rhodder "£1,862".

**Diwygiadau i reoliad 43 (uchafswm benthyciadau i fyfyrwyr cymwys sydd â hawlogaeth lawn ac yn fyfyrwyr carfan 2010, yn fyfyrwyr carfan 2012 neu'n fyfyrwyr mynediad graddedig carlam 2012 sy'n ymgymryd â'u blwyddyn gyntaf o astudio)**

**20.** Yn rheoliad 43—

(a) ym mharagraff (2)(i), yn lle "£6,027" rhodder "£6,163";

(b) ym mharagraff (2)(ii), yn lle "£10,907" rhodder "£11,152";

(c) ym mharagraff (2)(iii), yn lle "£9,283" rhodder "£9,492";

(d) ym mharagraff (2)(iv), yn lle "£9,283" rhodder "£9,492";

(e) ym mharagraff (2)(v), yn lle "£7,786" rhodder "£7,961";

(f) ym mharagraff (3)(i), yn lle "£5,457" rhodder "£5,580";

(g) ym mharagraff (3)(ii), yn lle "£9,932" rhodder "£10,155";

(h) ym mharagraff (3)(iii), yn lle "£8,074" rhodder "£8,256";

(i) ym mharagraff (3)(iv), yn lle "£8,074" rhodder "£8,256";

(j) ym mharagraff (3)(v), yn lle "£7,213" rhodder "£7,375".

**Diwygiadau i reoliad 45 (myfyrwyr sydd â hawlogaeth ostyngol)**

**21.** Yn rheoliad 45—

(a) ym mharagraff (1)(a)(i), yn lle "£2,862" rhodder "£2,926";

(b) ym mharagraff (1)(a)(ii), yn lle "£5,363" rhodder "£5,484";
(c) ym mharagraff (1)(a)(iii), yn lle "£4,563" rhodder "£4,666";
(d) ym mharagraff (1)(a)(iv), yn lle "£4,563" rhodder "£4,666";
(e) ym mharagraff (1)(a)(v), yn lle "£3,815" rhodder "£3,901";
(f) ym mharagraff (1)(b)(i), yn lle "£2,862" rhodder "£2,926";
(g) ym mharagraff (1)(b)(ii), yn lle "£5,363" rhodder "£5,484";
(h) ym mharagraff (1)(b)(iii), yn lle "£4,563" rhodder "£4,666";
(i) ym mharagraff (1)(b)(iv), yn lle "£4,563" rhodder "£4,666";
(j) ym mharagraff (1)(b)(v), yn lle "£3,815" rhodder "£3,901";
(k) ym mharagraff (1)(c)(i), yn lle "£4,520" rhodder "£4,622";
(l) ym mharagraff (1)(c)(ii), yn lle "£8,180" rhodder "£8,364";
(m) ym mharagraff (1)(c)(iii), yn lle "£6,962" rhodder "£7,119";
(n) ym mharagraff (1)(c)(iv), yn lle "£6,962" rhodder "£7,119";
(o) ym mharagraff (1)(c)(v), yn lle "£5,840" rhodder "£5,971";
(p) ym mharagraff (2)(a)(i), yn lle "£2,175" rhodder "£2,224";
(q) ym mharagraff (2)(a)(ii), yn lle "£4,102" rhodder "£4,194";
(r) ym mharagraff (2)(a)(iii), yn lle "£2,973" rhodder "£3,040";
(s) ym mharagraff (2)(a)(iv), yn lle "£2,973" rhodder "£3,040";
(t) ym mharagraff (2)(a)(v), yn lle "£2,973" rhodder "£3,040";
(u) ym mharagraff (2)(b)(i), yn lle "£2,175" rhodder "£2,224";
(v) ym mharagraff (2)(b)(ii), yn lle "£4,102" rhodder "£4,194";
(w) ym mharagraff (2)(b)(iii), yn lle "£3,336" rhodder "£3,411";
(x) ym mharagraff (2)(b)(iv), yn lle "£3,336" rhodder "£3,411";
(y) ym mharagraff (2)(b)(v), yn lle "£2,973" rhodder "£3,040";
(z) ym mharagraff (2)(c)(i), yn lle "£4,093" rhodder "£4,185";
(aa) ym mharagraff (2)(c)(ii), yn lle "£7,449" rhodder "£7,616";
(bb) ym mharagraff (2)(c)(iii), yn lle "£6,056" rhodder "£6,192";
(cc) ym mharagraff (2)(c)(iv), yn lle "£6,056" rhodder "£6,192";
(dd) ym mharagraff (2)(c)(v), yn lle "£5,410" rhodder "£5,531".

**Diwygiadau i reoliad 50 (codiadau yn yr uchafswm)**

**22.** Yn rheoliad 50—

(a) ym mharagraff (1)(a), yn lle "£89" rhodder "£91";
(b) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£172" rhodder "£176";
(c) ym mharagraff (1)(c), yn lle "£188" rhodder "£192";
(d) ym mharagraff (1)(d), yn lle "£188" rhodder "£192";
(e) ym mharagraff (1)(e), yn lle "£135" rhodder "£138".

**Diwygiadau i reoliad 56 (cymhwyso'r cyfraniad)**

**23.** Yn rheoliad 56—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£4,520" rhodder "£4,622";
(b) ym mharagraff (3)(b), yn lle "£8,180" rhodder "£8,364";
(c) ym mharagraff (3)(c), yn lle "£6,962" rhodder "£7,119";
(d) ym mharagraff (3)(d), yn lle "£6,962" rhodder "£7,119";
(e) ym mharagraff (3)(e), yn lle "£5,840" rhodder "£5,971";
(f) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£4,093" rhodder "£4,185";
(g) ym mharagraff (4)(b), yn lle "£7,449" rhodder "£7,616";
(h) ym mharagraff (4)(c), yn lle "£6,056" rhodder "£6,192";
(i) ym mharagraff (4)(d), yn lle "£6,056" rhodder "£6,192";
(j) ym mharagraff (4)(e), yn lle "£5,410" rhodder "£5,531".

**Diwygiad i reoliad 88 (grantiau at gostau byw myfyrwyr rhan-amser anabl**

**24.** Yn rheoliad 88(3)(a), yn lle "£31,831" rhodder "£32,546".

**Diwygiadau i reoliad 91 (grant rhan-amser ar gyfer dibynyddion mewn oed)**

**25.** Yn rheoliad 91(3)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "£3,190" rhodder "£3,262";
(b) yn is-baragraff (b), yn lle "£3,190" rhodder "£3,262".

**Diwygiad i reoliad 92 (grant rhan-amser ar gyfer gofal plant)**

**26.** Yn rheoliad 92—

(a) ym mharagraff (6)—
    (i) yn is-baragraff (a), yn lle "£179.62" rhodder "£184";
    (ii) yn is-baragraff (b), yn lle "£307.95" rhodder "£315";
(b) ym mharagraff (8)(a), yn lle "£138.31" rhodder "£141".

**Diwygiad i reoliad 93 (lwfans dysgu rhan-amser ar gyfer rhieni)**

**27.** Yn rheoliad 93(2), yn lle "£1,821" rhodder "£1,862".

**Diwygiad i reoliad 117 (swm y grant)**

**28.** Yn rheoliad 117(2)(a), yn lle "£31,831" rhodder "£32,546".

## PENNOD 3

### Diwygiad i'r diffiniad "blwyddyn Erasmus"

**Diwygiad i reoliad 2 (dehongli)**

**29.** Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "blwyddyn Erasmus", yn lle "a elwir ERASMUS neu yn y cynllun a sefydlir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a elwir Cynllun Turing," rhodder "a elwir ERASMUS, yn y cynllun a sefydlir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a elwir Cynllun Turing neu yn y cynllun a sefydlir gan Weinidogion Cymru a elwir y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu,".

PENNOD 4

Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

**Diwygiadau i reoliad 2 (dehongli)**

**30.** Yn rheoliad 2(1)—

(a) hepgorer y diffiniad o "cyfnod gras";

(b) yn y diffiniad o "person sydd â hawliau gwarchoddedig", hepgorer paragraff (1)(a)(iii).

**Diwygiadau i reoliadau 4, 81 a 110**

**31.** Ym mhob un o reoliadau 4(10E)(a), 81(10E)(a) a 110(12E)(a)—

(a) ym mharagraff (i), hepgorer "(iii),";

(b) ym mharagraff (ii), hepgorer "(iii) neu".

**Diwygiad i Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys)**

**32.** Yn Atodlen 1, hepgorer paragraff 3(1)(a)(iii).

# RHAN 6

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

PENNOD 1

Cyflwyniad

**33.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**9**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

PENNOD 2

Cymhwystra ar gyfer dinasyddion penodol o Affganistan

**Mewnosod rheoliad newydd 23F (terfynu cymhwystra – dinesydd perthnasol o Affganistan)**

**34.** Yn rheoliad 12(1), yn lle "23D neu 23E" rhodder "23D, 23E neu 23F".

**35.** Ar ôl rheoliad 23E mewnosoder—

"**23F.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr cymwys oherwydd ei fod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan (gweler Atodlen 2, paragraff 2ZA) mewn cysylltiad â chais am gymorth—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs presennol,

(ii) ar gyfer cwrs llawnamser y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben llawnamser mewn perthynas ag ef, neu

(**9**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/813 (Cy. 164); O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1094; O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/142 (Cy. 25); O.S. 2020/153 (Cy. 27); O.S. 2020/708 (Cy. 159); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4); O.S. 2021/73 (Cy. 19); O.S. 2021/481 (Cy. 148); O.S. 2021/813 (Cy. 192) ac O.S. 2021/1365 (Cy. 360).

(iii) ar gyfer cwrs y mae statws P fel myfyriwr cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs presennol o dan reoliad 28 neu baragraff 7 o Atodlen 5, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi, fo'r cyfnod y caiff P aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi."

**Diwygiad i reoliad 80 (cymhwyso i gael benthyciad at ffioedd dysgu yn ystod y flwyddyn academaidd)**

**36.** Yn rheoliad 80—

(a) ar ôl paragraff (2)(b)(ib) mewnosoder—

"(ic) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;";

(b) ym mharagraff (3), yn y lle priodol mewnosoder "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan".

**Diwygiad i reoliad 81 (cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth neu grantiau yn ystod y flwyddyn academaidd)**

**37.** Yn rheoliad 81(3)(b), ar ôl paragraff (ib) mewnosoder—

"(ic) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;".

**Diwygiadau i Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys)**

**38.** Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2ZA—

(a) yn is-baragraff (4)(b)—

(i) yn is-baragraff (iii), hepgorer y "neu" terfynol ac ar ôl is-baragraff (iv) mewnosoder "neu";

(ii) ar ôl is-baragraff (iv) mewnosoder—

"(v) person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan,";

(b) ar ôl is-baragraff (4)(e) mewnosoder—

"(ea) ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" yw person—

(i) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BA2 o'r rheolau mewnfudo, caniatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BS2 o'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BJ2 neu 276BO2 o'r rheolau mewnfudo,

(ii) y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid,

(iii) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan, neu

(iv) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo fel priod, partner sifil neu blentyn dibynnol person sy'n dod o dan baragraff (iii) neu blentyn dibynnol i briod neu bartner sifil o'r fath,".

**Diwygiadau i Atodlen 4 (grant myfyriwr ôl-raddedig anabl**

**39.** Yn Atodlen 4—

(a) ar ôl paragraff 13E mewnosoder—

"**13F.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys oherwydd ei fod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan (gweler Atodlen 2, paragraff 2ZA) mewn cysylltiad â chais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs ôl-radd presennol, neu

(ii) mewn cysylltiad â chwrs y mae statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs ôl-radd presennol o dan baragraff 15, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â hi, fo'r cyfnod y caiff P aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.";

(b) ar ôl paragraff 14(3)(b)(ib) mewnosoder—

"(ic) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;";

(c) ym mharagraff 14(4), yn y lle priodol mewnosoder "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" ("*person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen*");".

**Diwygiad i Atodlen 5 (benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge)**

**40.** Yn Atodlen 5, paragraff 4—

(a) ar ôl is-baragraff (2)(ab) mewnosoder—

"(ac) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;";

(b) yn is-baragraff (3), yn y lle priodol mewnosoder "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" ("*person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen*");".

**Diwygiad i Atodlen 7 (mynegai o dermau wedi eu diffinio)**

**41.** Yn Atodlen 7, yn Nhabl 16, yn y lle priodol mewnosoder—

| | |
|---|---|
| ""person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" | Atodlen 2, paragraff 2ZA" |

PENNOD 3

Diwygiadau sy'n ymwneud â chymorth ariannol

**Diwygiadau i reoliad 55 (swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr llawnamser)**

**42.** Yn rheoliad 55, mae Tabl 7 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2022";

(b) ar ddiwedd y Tabl ychwaneger y cofnod a ganlyn—

| | | | |
|---|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022 | Categori 1 | Byw gartref | £8,095 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £12,375 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £9,710 |
| | Categori 2 | Byw gartref | £4,045 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £6,185 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £4,855" |

**Diwygiadau i reoliad 56 (swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr llawnamser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig)**

**43.** Yn rheoliad 56—

(a) mae Tabl 8 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(i) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2022";

(ii) ar ddiwedd y Tabl ychwaneger y cofnod a ganlyn—

| | | |
|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022 | Byw gartref | £9,095 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £13,375 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £10,710" |

(b) mae Tabl 8A wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(i) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2022";

(ii) ar ddiwedd y Tabl ychwaneger y cofnod a ganlyn—

| | | |
|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022 | Byw gartref | £4,045 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £6,185 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £4,855" |

**Diwygiadau i reoliad 57 (benthyciad cynhaliaeth wedi ei gynyddu ar gyfer myfyrwyr llawnamser yn ystod blynyddoedd estynedig)**

**44.** Yn rheoliad 57, mae Tabl 9 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2022";

(b) ar ddiwedd y Tabl ychwaneger y cofnod a ganlyn—

| | | |
|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022 | Byw gartref | £91 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £176 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £138" |

**Diwygiadau i reoliad 58 (swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr rhan-amser)**

**45.** Yn rheoliad 58, mae Tabl 10 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2022";

(b) ar ddiwedd y Tabl ychwaneger y cofnod a ganlyn—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022 | £6,905 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio" |

**Diwygiadau i reoliad 58A (swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr rhan-amser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig)**

**46.** Yn rheoliad 58A, mae Tabl 10A wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2022";

(b) ar ddiwedd y Tabl ychwaneger y cofnod a ganlyn—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022 | £7,905 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio" |

**Diwygiad i reoliad 63 (swm y grant myfyriwr anabl)**

**47.** Yn rheoliad 63(2), yn Achos 1, yn lle "£31,831" rhodded "£32,546".

**Diwygiad i reoliad 72 (uchafswm y grant oedolion dibynnol)**

**48.** Yn rheoliad 72, mae Tabl 11 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2022";

(b) ar ddiwedd y Tabl ychwaneger y cofnod a ganlyn—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022 | £3,262" |

**Diwygiadau i reoliad 74 (uchafswm y grant dysgu ar gyfer rhieni)**

**49.** Yn rheoliad 74, mae Tabl 12 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2022";

(b) ar ddiwedd y Tabl ychwaneger y cofnod a ganlyn—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022 | £1,862" |

**Diwygiadau i reoliad 76 (uchafswm y grant gofal plant**

**50.** Yn rheoliad 76—

(a) mae Tabl 13 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(i) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2022";

(ii) ar ddiwedd y Tabl ychwaneger y cofnod a ganlyn—

| | | |
|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022 | Un plentyn dibynnol | £184 |
| | Mwy nag un plentyn dibynnol | £315" |

(b) ym mharagraff (4), yn lle "£138.31" rhodder "£141".

**Diwygiad i Atodlen 4 (grant myfyriwr ôl-raddedig anabl)**

**51.** Yn Atodlen 4, ym mharagraff 20(2), yn Achos 1, yn lle "£31,831" rhodder "£32,546".

PENNOD 4

Diwygiad i'r diffiniad o "blwyddyn Erasmus"

**Diwygiad i Atodlen 1 (dehongli)**

**52.** Yn Atodlen 1, ym mharagraff 4, yn lle is-baragraff (3) rhodder—

"(3) Yn is-baragraff (1), ystyr "cynllun ERASMUS" yw—

(a) cynllun gweithredu'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer symudedd myfyrwyr prifysgol,

(b) y cynllun a sefydlir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a elwir Cynllun Turing, neu

(c) y cynllun a sefydlir gan Weinidogion Cymru a elwir y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu."

PENNOD 5

Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

**Diwygiadau i reoliad 23E (personau y mae eu caniatâd i aros o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswylio wedi dod i ben)**

**53.** Yn rheoliad 23E(a)—

(a) yn is-baragraff (i), hepgorer "(iii),";

(b) yn is-baragraff (ii), hepgorer "(iii) neu".

**Diwygiadau i Atodlen 1 (dehongli)**

**54.** Yn Atodlen 1, paragraff 6—

(a) hepgorer y diffiniad o "cyfnod gras";

(b) yn y diffiniad o "person sydd â hawliau gwarchodedig", hepgorer paragraff (1)(a)(iii).

**Diwygiad i Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys)**

**55.** Yn Atodlen 2, hepgorer paragraff 1(2)(a)(iii).

**Diwygiad i Atodlen 4 (grant myfyriwr ôl-raddedig anabl)**

**56.** Yn Atodlen 4, ym mharagraff 13E(a)—

(a) ym mharagraff (i), hepgorer "(iii),";

(b) ym mharagraff (ii), hepgorer "(iii) neu".

**Diwygiad i Atodlen 7 (mynegai o dermau wedi eu diffinio)**

**57.** Yn Atodlen 7, yn Nhabl 16, hepgorer y cofnod yn y tabl ar gyfer "cyfnod gras".

PENNOD 6

Grant Myfyriwr Ôl-raddedig Anabl – diwygiadau sy'n ymwneud â gwaith gofal cymdeithasol

**58.** Yn Atodlen 4, ym mharagraff 5(1), yn Eithriad 2, ar ôl "Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016" mewnosoder "pan fo'r cwrs ôl-raddedig dynodedig yn dechrau cyn 1 Awst 2022".

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

26 Ionawr 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007") (gweler Rhan 2 o'r Rheoliadau),

(b) Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") (gweler Rhan 3 o'r Rheoliadau),

(c) Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") (gweler Rhan 4 o'r Rheoliadau),

(d) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") (gweler Rhan 5 o'r Rheoliadau), ac

(e) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") (gweler Rhan 6 o'r Rheoliadau).

Mae Pennod 2 o Rannau 2 a 4 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2007 a Rheoliadau 2015. Mae'r diwygiadau hynny yn darparu i ddinasyddion Affganistan y rhoddwyd caniatâd iddynt i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan y Cynllun Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan gael eu trin fel myfyrwyr cartref at ddiben ffioedd a godir gan sefydliadau addysg uwch ac at ddibenion perthynol. Bydd y personau hynny hefyd yn fyfyrwyr cymhwysol at ddiben darpariaethau capio ffioedd Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

Mae Pennod 2 o Rannau 3 a 6 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2014 a Rheoliadau 2018. Mae'r diwygiadau yn darparu i ddinasyddion Affganistan y rhoddir caniatâd iddynt i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan y Cynllun Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl feini prawf eraill.

Mae Pennod 3 o Rannau 2 a 4 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2007 a Rheoliadau 2015. Mae'r diwygiadau hynny yn cynnwys preswylwyr Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw yn yr Atodlen i Reoliadau 2007 a Rheoliadau 2015. Bydd preswylwyr Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw yn cael eu trin fel myfyrwyr cartref at ddiben ffioedd a godir gan sefydliadau addysg uwch ac at ddibenion perthynol ac fel myfyrwyr cymhwysol at ddiben y cap ar ffioedd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

Mae Pennod 2 o Ran 5 a Phennod 3 o Ran 6 o'r Rheoliadau yn gwneud newidiadau amrywiol i Reoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 sy'n ymwneud â swm y grantiau a'r benthyciadau y caiff myfyriwr cymwys ei gael ar gyfer blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2022.

Mae Pennod 3 o Ran 5 a Phennod 4 o Ran 6 o'r Rheoliadau yn diwygio'r diffiniad o flwyddyn ERASMUS yn Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 i gynnwys y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae Pennod 4 o Ran 5 a Phennod 5 o Ran 6 o'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 sy'n ymwneud â chymhwystra sy'n codi o'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Mae'r diwygiadau yn dileu cyfeiriad at y "cyfnod gras" o ganlyniad i'r ffaith bod y cyfnod hwnnw bellach wedi mynd heibio.

Mae Pennod 6 o Ran 6 o'r Rheoliadau yn diwygio Atodlen 4 i Reoliadau 2018 (grant myfyriwr ôl-raddedig anabl) mewn perthynas â chyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2022. Bydd myfyriwr

y dyfernir grant neu lwfans iddynt o dan adran 116(2)(a) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn gymwys i gael grant myfyriwr anabl.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.